**Composers Create**

During the lockdown 25 composers have been busy composing new pieces for the Unlocking Our Sound Heritage project. The composers received various interviews from 5 different collections from the sound archive and were asked to listen and use them as inspiration to create a new piece of work.

You can hear all the new pieces on the Library's YouTube Channel by searching the hash tag #UOSH

https://www.youtube.com/user/llyfrgen

The collections that inspired the composers were:

**Glenys James Collection**




Glenys James was born in London to Welsh parents and spoke Welsh at home and the chapel, but never lived in Wales.

She moved to Canada where she researched the Welsh who migrated to Canada and Patagonia for the Canadian Museum of Man, Ottawa (now known as Canadian Centre for Cultural Studies Ottawa)

In 1974, Glenys James recorded various interviews with people of Welsh descent living in Canada, especially the Satchawen area where Welsh communities were formed. Over 200 people left Patagonia for Canada in 1902 because of difficult conditions and wanting to create a better life for themselves. These interviews include personal stories and accounts of building new villages and naming them in Welsh (Glyndwr, Bangor, Llewelyn). They erected new schools and chapels and held Eisteddfodau.

The original reel to reel tapes are now kept at the Canadian Centre for Cultural Studies in Ottawa with cassette copies and digital files here at the National Library.

**Why should we not sing?**



In 1916 *The Times* published a letter where the writer objected to the holding of the Eisteddfod during war time. In response to the article, David Lloyd George delivered a speech at Aberystwyth National Eisteddfod, which began with the words - 'Why should we not sing during war time?'

Throughout the speech he defends holding the Eisteddfod. It was reported that over 7,000 people listened and cheered his speech. On the 15th February, 1934, Lloyd George recorded part of his famous speech at the BBC studios to be aired on radio. A copy of this address is kept at the Library and has been digitally restored by the Unlocking Our Sound Heritage team.

**Story of the Forest**



Story of the Forest was a project run by the Forestry Commission in 2002-3 where they recorded interviews with people involved in Forestry Commission activities in Wales.

Personal stories were told by people who lived and worked in and around the forestry, discussing the situation from post war up to the 21st century, including accounts of how they came to work for the Forestry Commission, the activities – building roads, ploughing. The interviews give us an insight to the changes to Wales' landscape, and teach us about the social, agricultural and economic effects.

167 Minidiscs were deposited to the Library; they were digitised and catalogued by students of the MA Archive Administration and MSc Digital Curation courses from Aberystwyth University's Department of Information Studies in 2019.

**Caradog Jones**



Meleri Mair interviews Caradog Jones in 1997 on the subject of poaching, with comments on his own experience as a river bailiff in the 1950s.

Mr Jones describes why people poached - mainly poverty, the consequences to those who were caught and the custom of disguising their identity to avoid detection at night.

**Colin Edwards Collection**



Colin Edwards was a Welsh journalist, broadcaster and author who lived in California. During the 1960s he recorded interviews with friends, family and acquaintances of Dylan Thomas. These accounts and reminiscences on the life of Dylan give us an insight to his character, his work, relationships, and family background.

The tapes were donated to the Library by Colin's wife, Mary Edwards, following his death. David N Thomas used the tapes in his published books 'Dylan Remembered', 2 vols (Seren and NLW, 2003, 2004)

We would like to thank all the composers who took part in the commission work; we hope you enjoy listening to the compositions:

Alan Chamberlain ; Angharad Davies ; Ben McManus ; Bonello, Ruth and Hay ; Branwen Williams ; David Roche ; Derri Joseph Lewis ; Gareth Bonello ; Georgia Ruth Williams ; Geraint Rhys ; Gwen Mairi ; Gwenan Gibbard ; Gwilym Bowen Rhys ; Gwydion Rhys ; Luciano Williamson ; Owen Shiers Pierce Joyce ; Pwdin Reis composed by Neil Rosser ; Sally Crosby ; Sam Humphreys ; Seth Alexander ; Stacey Blythe ; Steff Rees ; Tinc y Tannau ; Toby Hay.

**Cerddorion yn Creu**

Yn ystod y cyfnod cloi mae 25 o gyfansoddwyr wedi bod yn brysur yn cyfansoddi darnau newydd ar gyfer y prosiect Datgloi Ein Treftadaeth Sain. Derbyniodd y cyfansoddwyr gyfweliadau amrywiol o 5 casgliad gwahanol o'r archif sain a gofynnwyd iddynt wrando a'u defnyddio i'w hysbrydoli i greu darn newydd o waith.

Gallwch glywed pob un o'r darnau newydd ar Sianel YouTube y Llyfrgell trwy chwilio'r tag #DETS

https://www.youtube.com/user/llyfrgen

Dyma'r casgliadau a ysbrydolodd y cyfansoddwyr:

**Casgliad Glenys James:**




Ganed Glenys James yn Llundain i rieni o Gymru, ac roedd yn siarad Cymraeg adref ac yn y capel, ond nid fu erioed yn byw yng Nghymru.

Symudodd i Ganada lle bu'n cynnal ymchwil ar gyfer Amgueddfa Dyn Canada, Ottawa (a elwir bellach yn Ganolfan Astudiaethau Diwylliannol Canada, Ottawa) i'r Cymry a fudodd i Ganada a Patagonia.

Yn 1974, recordiodd Glenys James amryw o gyfweliadau â phobl o dras Gymreig oedd yn byw yng Nghanada, yn enwedig ardal Satchawen lle ffurfiwyd cymunedau Cymreig. Gadawodd dros 200 o bobl Patagonia am Ganada ym 1902 oherwydd amodau anodd ac am eu bod eisiau creu bywyd gwell. Mae'r cyfweliadau hyn yn cynnwys straeon personol a hanesion adeiladu pentrefi newydd a'u henwi yn Gymraeg (Glyndwr, Bangor, Llewelyn). Fe wnaethant godi ysgolion a chapeli newydd a chynnal Eisteddfodau.

Mae'r tapiau rîl i rîl gwreiddiol bellach yn cael eu cadw yng Nghanolfan Astudiaethau Diwylliannol Canada yn Ottawa gyda chopïau casét a ffeiliau digidol yma yn y Llyfrgell Genedlaethol.

**Pam na ddylem ni ganu?**



Yn 1916 cyhoeddodd y *Times* lythyr lle roedd yr ysgrifennwr yn gwrthwynebu cynnal yr Eisteddfod yn ystod y rhyfel. Mewn ymateb i'r erthygl, traddododd David Lloyd George araith yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, gan ddechrau gyda'r geiriau - 'Pam na ddylem ni ganu yn ystod y rhyfel?'

Trwy gydol yr araith mae'n amddiffyn cynnal yr Eisteddfod. Adroddwyd bod dros 7,000 o bobl wedi gwrando ar ei araith. Ar 15fed Chwefror, 1934, recordiodd Lloyd George ran o'i araith enwog yn stiwdio'r BBC er mwyn ei darlledu ar y radio. Cedwir copi o'r anerchiad yma yn y Llyfrgell ac fe'i adferwyd yn ddigidol gan y tîm Datgloi Ein Treftadaeth Sain.

**Stori'r Goedwig:**



Roedd Stori'r Goedwig yn brosiect gan y Comisiwn Coedwigaeth yn 2002-3 lle recordiwyd cyfweliadau â phobl oedd yn ymwneud â gweithgareddau'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru.

Adroddwyd straeon personol gan bobl a oedd yn byw ac yn gweithio yn y goedwig ac o'i chwmpas, gan sôn am y cyfnod wedi'r rhyfel hyd at yr 21ain ganrif. Mae yma hanesion am sut y daethant i weithio i'r Comisiwn Coedwigaeth, y gweithgareddau - adeiladu ffyrdd, aredig. Mae'r cyfweliadau'n caniatáu inni ddysgu am y newidiadau yn nhirwedd Cymru, a'r effaith gafodd hyn ar gymdeithas, amaeth a'r economi.

Adneuwyd 167 o finiddisgiau i'r Llyfrgell a chawsant eu digideiddio a'u catalogio gan fyfyrwyr MA Gweinyddiaeth Archifau ac MSc Curadu Digidol o Adran Astudiaethau Gwybodaeth Prifysgol Aberystwyth yn 2019.

**Caradog Jones:**



Yn 1997 recordiodd Meleri Mair gyfweliad gyda Caradog Jones am botsio o afonydd, lle rhoddir sylwadau am ei brofiad personol fel beili afon yn y 1950au.

Mae Mr Jones yn disgrifio pam fod pobl yn potsio - tlodi yn bennaf, y gosb i'r rhai a gafodd eu dal, a'r arfer o orchuddio eu hunain i osgoi cael eu hadnabod a'u dal gyda'r nos.

**Casgliad Colin Edwards:**



Newyddiadurwr, darlledwr ac awdur o Gymru oedd Colin Edwards a oedd yn byw yng Nghaliffornia. Yn ystod y 1960au recordiodd gyfweliadau â ffrindiau, teulu a chydnabod Dylan Thomas. Mae'r hanesion a'r atgofion hyn am fywyd Dylan yn rhoi darlun i ni o'i gymeriad, ei waith, ei berthnasau a'i gefndir teuluol.

Rhoddwyd y tapiau i'r Llyfrgell gan wraig Colin, Mary Edwards, wedi iddo farw. Defnyddiodd David N Thomas y tapiau yn ei lyfrau cyhoeddedig ‘Dylan Remembered’, 2 gyfrol (Seren a NLW, 2003, 2004)

Hoffem ddiolch i'r holl gyfansoddwyr am gymryd rhan yn y gwaith comisiwn; gobeithiwn y byddwch yn mwynhau gwrando ar y cyfansoddiadau:

Alan Chamberlain; Angharad Davies; Ben McManus; Bonello, Ruth a Hay; Branwen Williams ; David Roche; Derri Joseph Lewis; Gareth Bonello; Georgia Ruth Williams; Geraint Rhys; Gwen Mairi; Gwenan Gibbard; Gwilym Bowen Rhys; Gwydion Rhys; Luciano Williamson; Owen Shiers; Pierce Joyce; Pwdin Reis a gyfansoddwyd gan Neil Rosser; Sally Crosby; Sam Humphreys; Seth Alexander; Stacey Blythe; Steff Rees; Tinc y Tannau; Toby Hay.